St David's Hall
Neuadd Dewi Sant

HYDREF A THACHWEDD 2019

FREYA RIDINGS

MERCHER 20 TACHWEDD
7.30PM

CARDIFF
CAERDYDD
www.visitcardiff.com

CARDIFF
CAERDYDD

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Neuadd Dewi Sant, Yr Aes, Caerdydd CF10 1AH

Swyddfa Docynnau
029 2087 8444
Tocynnau ar lein @
www.stdavidshallcardiff.co.uk

Ar fynd

NEWYDD DDOD I LAW MEDI

Iau 19	7.30pm	**Harry Potter and the Philosopher's Stone™** Mewn cyngerdd gyda'r Gerddorfa Symffoni Tsiec

HYDREF

Mawrth 1	1.00pm	**Cyngerdd Awr Ginio** – Triawd Piano Solarek
	8.00pm	**Capital City Jazz Orchestra** gyda'r Unawdydd Gwadd Arbennig Stan Sulzmann Lolfa L3
Iau 3	7.30pm	**Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC**
Gwener 4 & Sadwrn 5	8.00pm	**Rob Beckett – Wallop**
Sul 6	7.30pm	**Penguin Cafe**
Llun 7	7.30pm	**Les Musicals**
Mawrth 8	7.30pm	**Will Young**
Mercher 9	7.30pm	**Cerddorfa Ffilharmonig Mosgo**
Iau 10 – Sadwrn 12		**Cynhadledd NAPO** Bydd y lefelau uchaf ar gau i'r cyhoedd
Sul 13	7.30pm	**Gwobrau Academi Brydeinig Cymru 2019**
Mawrth 15	1.00pm	**Cyngerdd Awr Ginio** – Nicholas McCarthy
	7.30pm	**Taith y Byd Gŵyl Ffilmiau'r Cefnfor**
Mercher 16	7.30pm	**Kevin Bloody Wilson**
Iau 17	7.30pm	**Sixties Gold 2019**
Gwener 18	7.30pm	**Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd**
Sadwrn 19	7.45pm	**Amanda Palmer**
Llun 21	7.30pm	**The Greatest Love of All** – yn serennu Belinda Davids
Mawrth 22	7.30pm	**Rip It Up The 70s**
Mercher 23	8.00pm	**Van Morrison**
Gwener 25	7.30pm	**Cerddorfa Symffoni a Chorws Coleg Brenhinol Cymru**
Sadwrn 26	1.00pm	**Gweithdy Trïo'r Gamelan** – Lefel 1
	7.30pm	**Lulu**
Sul 27	3.00pm	**Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru**
Llun 28	canol dydd a 3.00pm	**Milkshake! yn Fyw**
	8.00pm	**Tŷ Cerdd @ hwyrgerdd**

Ar fynd

Mawrth 29 & Mercher 30	7.30pm	**Tim Minchin** Taith Back 2019
Iau 31	6.00pm	**Mapiau Ffordd Cerddoriaeth Glasurol** Hanes Celf a Cherddoriaeth Ffilm Lefel 1
	7.30pm	**The Music of Bond**

TACHWEDD

Gwener 1	Drysau 7.00pm	**Lisa Stansfield** Taith Deng Mlwyddiant ar Hugain Affection
Sadwrn 2	7.00pm	**Gŵyl Goffa Cymru** er budd Apêl Pabïau'r Lleng Brydeinig Frenhinol
Mawrth 5	1.00pm	**Cyngerdd Awr Ginio** Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Cyngerdd Enillydd y Wobr Laura Deignan
Mercher 6	7.30pm	**The Stylistics 2019**
Iau 7	7.30pm	**Ben Elton yn Fyw**
Gwener 8	7.30pm	**Cerddorfa Symffoni Prâg**
Sadwrn 9	7.30pm	**Steve Hackett Genesis Revisited 2019**
Sul 10	3.00pm	**Glenn Miller Orchestra**
Llun 11	7.30pm	**Celtic Woman**
Mawrth 12	1.00pm	**Cyngerdd Awr Ginio** Lansio Gŵyl Bro Morgannwg
	7.30pm	**Taith Podlediad Beicio Prydain** Lolfa L3
Mercher 13	Doors 7.00pm	**Squeeze**
Iau 14	7.30pm	**Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC**
Gwener 15	8.00pm	**Russell Kane**
Sadwrn 16	7.30pm	**Marillion gyda'u Ffrindiau o'r Gerddorfa yn Fyw yn 2019** + Harry Pane
Mawrth 19	1.00pm	**Cyngerdd Awr Ginio** – Dale Storr
	8.00pm	**Gwrando'r Gwreiddiau** – Jackie Oates – L3

Mercher 20	7.30pm	**Freya Ridings**
Gwener 22	7.30pm	**Emeli Sandé**
Sadwrn 23	7.30pm	**Jonathan Pie: The Fake News Tour**
Llun 25	7.30pm	**Ffilm Love Actually** Cyngerdd Byw gyda Cherddorfa Lawn
Mawrth 26	1.00pm	**Cyngerdd Awr Ginio** – Côr Eglwys Gadeiriol Fetropolitanaidd Caerdydd
	7.30pm	**John Robins: Hot Shame**
Mercher 27	7.30pm	**Philharmonia Orchestra**
Iau 28 & Gwener 29	8.00pm	**Romesh Raganathan** Pob tocyn wedi'i werthu
Sadwrn 30	7.30pm	**Adam Ant**

Yn Wyrdd Amdani – Ymunwch â'n rhestr e-bost a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am sioeau a chynigion yn syth i'ch blwch derbyn. Ymgofrestrwch yn www.stdavidshallcardiff.co.uk

DYDDIADAU GWERTHU

Mae tocynnau i'r digwyddiadau yma ar werth ar y dyddiadau sy'n dilyn onibai bod cofnodion unigol yn dweud Ar Werth Yn Awr:

Cyfeillion Neuadd Dewi Sant – Llun 12 Awst.
Y Cyhoedd – Iau 15 Awst.

Trydar

Rydym wrth ein bodd o weld eich sylwadau Trydar a Gweplyfr a hyfryd o beth ydi bod arnoch eisiau dweud wrth bobol eich bod yn cael y fath hwyl. Ond, er mwyn aelodau eraill o'r gynulleidfa, da chi defnyddiwch ffonau symudol a dyfeisiau'r rhyngrwyd yn yr egwyl neu cyn ac ar ôl y cyngerdd. Dylai ffonau symudol a dyfeisiau eraill i gyd gael eu diffodd yn ystod y perfformiad ei hun. Diolch!

MEYSYDD PARCIO CYFAGOS

Mae meysydd parcio canol y ddinas yn agos at yr oedfan ac mae llefydd parcio ar y stryd o gwmpas y ganolfan ddinesig am £4.00* ar ôl 6.00 yr hwyr
*yn gywir ar adeg argraffu

PAWB AT Y SEDD Y BO

Gewch chi bellach ddewis eich sedd eich hun pan fyddwch chi'n codi tocynnau ar lein.

Gweler manylion cynllun hynt ar dudalen 40.

Mae Neuadd Dewi Sant yn eiddo, dan nawdd a dan reolaeth Cyngor Caerdydd.

Yn glocwedd o'r chwith i'r dde: Will Young, Amanda Palmer, Russell Kane, Adam Ant, Emeli Sandé

Cynnwys

02-03

Dan sylw
Digwyddiadau Actifyddion Artistig a manylion ein Loffa Jin ar Lefel 4.

04-06

Proffil
Mae cyfoeth o gerddoriaeth glasurol yn eich aros chi yn y Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol.

Lulu yn dod yn danbaid i'r Neuadd gan brofi ei bod ar dân fyth!

07-37

Ar Fynd
Manylion yr holl ddigwyddiadau tan gamp yn y Neuadd ym misoedd Hydref a Thachwedd 2019 a Maes o Law.

38-40

Gwybodaeth am Godi Tocynnau
Sut i godi'ch tocynnau a manylion ein disgowntiau.

Dilynwch ni ar Twitter:
twitter.com/NeuaddDewiSant

Rydym ni ar Facebook:
www.facebook.com/NeuaddDewiSant

Os nad oes arnoch bellach eisiau cael manylion digwyddiadau i ddod yn y New Theatre/Neuadd Dewi Sant, cysylltwch â'n swyddfa docynnau ar 02920 87 84 44 a gofyn am gael eich tynnu oddi ar ein rhestr bost.

Mae Cyngor Caerdydd yn gofrestredig gyda'r Swyddfa Comisiynwyr Gwybodaeth, rhif Z5832396.

Y LOLFA JIN

Y LOLFA JIN

Mae ein Lolfa Jin foethus ar Lefel 4 ar agor i bob perfformiad gyda'r hwyr yn yr Awditoriwm.

Champagne, gwin blasus a chwrw crefft, sioe wych o ddiodydd ysgafn heb sôn am dros ddeugain math o jin o bedwar ban byd:

Cwmni Suntory chwedlonol Japan sy'n gwneud, **Roku**, o ddail a blodau Sakura at y gwanwyn, te sencha a the gyokuro at yr haf, pupur sansho at yr hydref a chroen yuzu at y gaeaf.

Gewch chi flasu'r **Sharish Blue Magic** egsotig o dref ganoloesol Monsaraz ym Mhortiwgal. Mae ei liw glas godidog yn dod o rin blodyn o'r enw pysen las; pan gymysgwch chi'r jin â thonig mae'n troi'i liw'n binc hudol. Ymhlith y planhigion ynddo mae'r eithinen bêr, llysiau'r bara, gwreiddlysiau'r angel, sinsir, sinamon, cardamom, croen lemon, mefus a mafon.

O'n nes adref mae gennym ddewis amrywiol o jin o Gymru gan gynnwys **Brecon Botanicals**, jin graenus a wneir fesul ychydig yn Nistyllfa Penderyn. Mae iddo flas perlysiau, yr eithinen bêr ac arni flas y pridd a sbeisys y Dwyrain, awgrym o sinamon a bergamot. Mae Jin Gwymon **Dà Mhìle** (a ynganir Da File), jin a wneir fesul ychydig yng Ngheredigion, wedi'i drwytho â gwymon i roi iddo naws y glannau. Ac yn Jin Sych **Cardiff Eccentric** glywch chi flas llysieuog rhywiog rhosmari, ffenigl, suran a gwylys



RYDYM YN Y LOLFA'N YFED JIN

a nodau sitrws lemonwellt a'r ferfain lemonaidd. Fe'i gwneir â'r eithinen bêr naturiol a dyfir ar y comin yn Llantrisant.

Mae gennym jin clasurol hefyd, yn cynnwys Tanqueray, Sipsmith Sloe Gin, Plymouth Gin a'r Bols Genever clasurol, diledryw o hen resipi gwirodydd o'r flwyddyn 1820. Mae'n hŷn na'r un jin o Loegr ac ohono mae'r ymadrodd cyffredin 'Dutch Courage' yn deillio.

Gobeithio y cawn ni'ch gweld chi yn y Lolfa Jin cyn bo hir!

Actifyddion Artistig

CYNLLUN CYFANSODDWYR IFAINC – LEFEL 1

Ydych chi rhwng pymtheg a deunaw oed? Ymunwch â'n Cynllun Cyfansoddwyr Ifainc i ddatblygu eich sgiliau cyfansoddi, lle byddwch chi'n gweithio gyda chyfansoddwyr ac offerynwyr proffesiynol.

GAMELAN CAERDYDD

Mawrth 6-8pm

Mae repertoire Gamelan Caerdydd, ensemble gamelan cymuned oedolion Neuadd Dewi Sant, yn cynnwys cyfansoddiadau traddodiadol Java a chyfansoddiadau o'r gorllewin i'r gamelan. Mae croeso i aelodau newydd ymuno â'r cylch gallu cymysg yma, waeth beth fo'u profiad blaenorol.

SESIYNAU BLASU'R GAMELAN I YSGOLION

Mae'r sesiynau'n para dwyawr fel arfer ac maen nhw ar gael drwy gydol y tymor, yn ddelfrydol i gyfnod allweddol 2 ymlaen.

actifyddion artistig

Am ragor o wybodaeth rhowch ganiad i 029 2087 8572 neu e-bostio a2@artsactive.org.uk

TIME CREDITS

Yma yn Neuadd Dewi Sant rydym yn falch iawn o fod yn rhan o'r cynllun Time Credits. Rhedir y cynllun gan Tempo (Spice gynt), elusen a gychwynnwyd yng Nghymru yn 2008, ac sydd bellach ar waith ledled gwledydd Prydain. Cymunedau cryfion, cydlyn ydi eu gweledigaeth lle rhoir gwerth ar amser pawb.

Ffordd ydi Time Credits o gydnabod y pethau gwych mae pobl yn eu gwneud yn eu cymunedau, ac amser pawb yn gyfwerth, yn gwirfoddoli yn un o'r prosiectau lawer sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys Cymru Golwg ar Fywyd Gwyllt, Global Gardens, Recovery Cymru, Clwb Beicio'r Eglwys Newydd, Clybiau Gwaith yn Rhondda Cynon Taf a llawer o brosiectau ardderchog eraill. Wedyn gellir gwario'r credydau mewn llawer o ganolfannau hamdden, yn cynnwys digwyddiadau dethol yn Neuadd Dewi Sant a'r New Theatre.

Cadwch olwg am y symbol isod i weld ymhle mae'r cynllun Time Credit ar waith* a mynd i timecredits.com i gael rhagor o wybodaeth.

Tempo

*a bwrw bod tocynnau ar gael, Amodau a thelerau ar waith

Y Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol

O Brâg i Reykjavik… Pymtheg o Gyngherddau Gyda Goreuon y Byd yng Nghyfres Cyngherddau Rhyngwladol 19-20

Bydd cymanfa gyda'r goreuon o unawdwyr a cherddorfeydd ac ensembles ymweld o'r Undeb Ewropeaidd, Mosgo, Prâg a Reykjavik yn dod i lwyfan Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru yn ystod Cyfres Cyngherddau Rhyngwaldol 2019/20.

Does dim dichon pigo'r goreuon o blith yr uchelfannau lawer mae'r tymor yn eu cynnig, ond dyma ambell un i godi archwaeth arnoch:

Trydedd Aruthrol Mahler: Daw'r pianydd o Brydeiniwr mawr ei fri Peter Donohoe at Gerddorfa Ffilharmonig Moscow sy'n fawr ei chlod drwy'r gwledydd mewn reid colli cylla, sef Trydedd Symffoni Mahler yn y cyngerdd agoriadol ar 9 Hydref.

Beethoven Bondibethma: Drwy'r flwyddyn gron dathlir deucanmlwyddiant a hanner geni Beethoven, ac mae Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru a Cherddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC yn ymuno i ailgreu'r Budd-gyngerdd Beethoven hanesyddol a roddwyd yn Fienna ym 1808: mewn cyngerdd pedair awr, perfformiadau cyntaf oedd popeth ond ei aria ddramatig 'Ah Perfido'. Mae'r cipolwg yn ôl gwych yma ar 19 lonawr yn dod â chyfoeth o ddawn yn ei sgìl i gyflwyno peth o gerddoriaeth fwyaf arbennig Beethoven.

Canu'n iach i Tasmin: Bydd y ffidler hoff Tasmin Little yn perfformio rhaglen wefreiddiol o glasuron Rhamantaidd gyda'r Royal Philharmonic Orchestra, dan arweiniad Thierry Fischer, cyn iddi ymddeol.

Dewch aton ni i'r Mapiau Ffordd Cerddoriaeth Glasurol a gyflwynir gan Jonathan James ar Lefel 1:
Yn sgìl eglurebau difyr ar y piano, cerddorion gwadd a chymysgedd o bigion sain, bydd y cyflwyniadau ysgafnfryd yma'n gaffaeliad i chi ddirnad y cysylltiadau yn hanes cerddoriaeth glasurol ac yn eich cyflwyno i fyd mawr newydd o wrando.

Addas i'r newyddian llwyr a hen lofiau o gyngherddwyr.
31 Hydref 6.00pm – 7.00pm– The History of Art & Film Music
12 Mawrth 6.00pm – 7.00pm – The Concerto

Am ddim ond mae gofyn tocynnau. Cadwch y rhain drwy'r Swyddfa Docynnau.

Yn glocwedd o'r chwith i'r dde: Nicola Benedetti, Sheku Kanneh-Mason, Tasmin Little

9 Hydref	7.30pm	**Cerddorfa Ffilharmonig Mosgo**
27 Hydref	3.00pm	**Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru**
8 Tachwedd	7.30pm	**Cerddorfa Symffoni Prâg**
27 Tachwedd	7.30pm	**Philharmonia Orchestra**
3 Rhagfyr	7.30pm	**Manchester Camerata a Craig Ogden**
15 Rhagfyr	3.00pm	**The Sixteen**
19 Ionawr	4.00pm	**Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a Cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru - Budd-gyngerdd Beethoven 1808**
30 Ionawr	7.30pm	**Cerddorfa Siambr yr Undeb Ewropeaidd**
13 Chwefror	7.30pm	**Cerddorfa Symffoni Gwlad yr Iâ**
6 Mawrth	7.30pm	**Armonico Consort gyda Nicola Benedetti**
13 Mawrth	7.30pm	**Royal Philharmonic Orchestra gyda Tasmin Little**
3 Ebrill	7.30pm	**Philharmonia Orchestra**
26 Ebrill	3.00pm	**Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru**
18 Mai	7.30pm	**Aurora Orchestra gyda Nicola Benedetti**
6 Mehefin	7.30pm	**Royal Liverpool Philharmonia Orchestra gyda Sheku Kanneh-Mason**

£10.00 – £43.00 Tocyn Platinwm £51.50 (yn cynnwys sedd gyda'r gorau yn Rheng 1, gwydraid o Prosecco a rhaglen). Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

International | Rhyngwladol

Tudalen 3

LULU

STILL ON FIRE

Mae gan Lulu ddigon i weiddi yn ei gylch o hyd a hithau'n cychwyn ar daith enfawr eto yng ngwledydd Prydain.

Cantores, cyfansoddwr caneuon, actores, trysor cenedlaethol – i gyd yn enwau roddwyd ar Lulu. Dygnodd ati, pan simsanodd llawer; pam? heb flewyn ar dafod oherwydd ei dawn yn artist a'i phenderfyniad yn berson. Mae ei pherfformiadau gwefreiddiol yn sicrhau iddi selogion triw sy'n dod allan y naill flwyddyn ar ôl y llall i weld chwedl wrth ei gwaith.

Her voice has lost none of its sassy, soulful crackle and the original songs are smart, intelligent and seductive.
The Times

Os na welsoch chi Lulu'n fyw, peidiwch da chi â cholli'r cyfle arbennig yma a Lulu'n adrodd stori ei bywyd hynod, bellach yn ddeng mlwydd a thrigain, a gyrfa fu'n frenin i lawer o'i chydoeswyr.

Sioe dan ei sang o hits ydi **Still on Fire**, a Lulu'n mynd â ni ar ei thaith bersonol ei hun drwy ei cherddoriaeth. A band pedwar darn yn gefn, sgrîn LED gyda munudau diffiniol teulu a gyrfa a ddetholwyd yn ofalus. Bydd Lulu yn cael gennych eistedd, sefyll, dawnsio, canu, chwerthin neu ddim ond gwrando ar stori anhygoel gychwynnodd ar 3ydd Tachwedd 1948.

Rhywbeth i weiddi yn ei gylch?
Mae gan Lulu ddigonedd!!

Still packing a punch…her passion and talent for music is clearly her number one priority…and long may it last.
The Birmingham Post

Sadwrn 26 Hydref 7.30pm

£35.00 I £40.00 I £45.00
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £35.00 yr un.

hynt Tudalen 40

NEWYDD DDOD I LAW – MEDI
IAU 19 7.30pm

Harry Potter and the Philosopher's Stone™

Mewn Cyngerdd

Y ffilm gyflawn i gyfeiliant y Gerddorfa Symffoni Genedlaethol Tsiec

Bydd y Gerddorfa Symffoni Genedlaethol Tsiec yn perfformio'n fyw, i gyfeilio i'r llun *Harry Potter and the Philosopher's Stone* mewn Cyngerdd. Caiff y cynulleidfaoedd ail-fyw cyfaredd y ffilm ar ei hyd yn groyw ar sgrîn anferthol ar yr un pryd â chlywed y Gerddorfa Symffoni Genedlaethol Tsiec yn perfformio sgôr fythgofiadwy John Williams yn fyw.

Mae gan y ffilm ddosbarthiad PG.

£32.50 | £42.50 | £52.50
VIP: £88.00
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £32.50 yr un. Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

MAWRTH 1 1.00pm

Cyngerdd Awr Ginio

Triawd Piano Solarek

Teithiodd y grŵp hirsefydlog yma'n eang drwy hyd a lled Prydain ac Ewrop a rhoi perfformiadau yn South Bank a St Johns Smith Square Llundain.

Cenhadaeth Marina, Miriam a Diana ydi rhoi llwyfan i gyfansoddwyr benywaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif fel Lili Boulanger, Cecile Chaminade, Amy Beach, Germaine Tailleferre, Rebecca Clarke, a Johanna Senfter sydd bron yn anhysbys. Mae'r rhaglen heddiw'n cynnwys gweithiau gan Lili Boulanger, Rebecca Clarke a Germaine Tailleferre.

£6.00 ymlaen llaw
£7.00 ar y diwrnod
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler Tudalen 38). Ar Werth yn Awr

1-2 music with taste

hynt Tudalen 40

Tudalen 3

MAWRTH 1 8.00pm

Capital City Jazz Orchestra

gyda'r Unawdydd Gwadd Arbennig Stan Sulzmann

Mae Stan Sulzmann yn un o hen lofiau sîn jazz gwledydd Prydain, a chanddo yrfa lawn ac amrywiol yn cynnwys chwarae gyda cherddorion mor wahanol â Kenny Wheeler, Larry Grenadier a Gwilym Simcock, yn ogystal â gweithio'n doreithiog yn arweinydd band. Mae galw mawr am Stan yn aelod band a gweithiodd gyda llu o gerddorion, gan gynnwys John Taylor, Jim Mullen, Nikki Iles, Mike Gibbs, Marc Copland, Allan Botchinksy, Ensemble Jazz Ewrop, Kit Downes, Michael Brecker a Gil Evans.

£14.00
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler Tudalen 38).

Ar Fynd

IAU 3 7.30pm

Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC

Verdi Requiem

Richard Farnes *arweinydd*

Cerddorfa, unawdwyr a chorws yn ymuno i lansio'r tymor â'r Requiem mwyaf mawreddog ym myd cerddoriaeth Ramantaidd.

Mae Requiem Verdi yn cychwyn ac yn dod i ben dan sibrwd, ond y fath gwmpas o ddrama sydd rhwng y ddau: ffyrnigrwydd y 'Dies Irae', y pres syfrdanol yn 'Tuba Mirum' a dawns orfoleddus y 'Sanctus'…holl rym a chrefft opera Ramantaidd Eidalaidd mewn un naratif teimladol, cryno.

£15.00 – £43.00
Gostyngiadau ar gael
Ar Werth yn Awr

BBC Orchestra in Residence Y Cerddorfa Breswyl

GWENER 4 & SADWRN 5 8.00pm

Rob Beckett

Wallop

Mae Rob Beckett yn ei ôl ar daith ac i'w ganlyn sioe stand-up newydd sbon danlli grai. Fe fu'n ddwy flynedd brysur i'r Mouth of the South ac mae'n dod i edrych amdanoch chi i roi'r holl hanes i chi ac i wneud i chi chwerthin.

Dyma lywydd *All Together Now* BBC Un a chapten y tîm ar *8 Out Of 10 Cats* Sianel 4. Mae hefyd yn seren *Live At The Apollo, Would I Lie To You?* BBC Un, *8 Out Of 10 Cats Does Countdown* Sianel 4, *Mock The Week* BBC Dau, *Play To The Whistle* ITV, *Celebrity Juice* ITV2 ac *A League of Their Own* Sky.

£25.00
Ar Werth yn Awr
Canllaw i Rieni: 14+ (mwy na thebyg bydd rhegi a chynnwys i oedolion).

hynt Tudalen 40

SUL 6 7.30pm

Penguin Cafe

Mae'r Penguin Cafe bythol enigmatig yn dod i'r Neuadd ac i'w canlyn eu sioe fyw sy'n codi uwchlaw cerddoriaeth boblogaidd a chlasurol fel ei gilydd, yn cyfuno elfennau Clasurol, Amgylchol, cerddoriaeth y Byd a Chanu Gwerin i greu sain wirioneddol ddihafal ac ymdrwythol.

Yn 2009 y'i ffurfiwyd, gan Arthur Jeffes, mab Simon Jeffes o'r Penguin Café Orchestra eiconig, a daeth Penguin Cafe â grŵp dawnus ac amrywiol o gerddorion at ei gilydd o grwpiau fel Suede, Gorillaz a Razorlight; mae eu cerddoriaeth yn dwyn holl nodau amgen PCO a fydd yn hoff ac yn gyfarwydd i'w disgyblion, yn dal i godi uwchlaw cerddoriaeth boblogaidd a chlasurol.

£29.00 | £32.00
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £29.00 yr un.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

LLUN 7 7.30pm

Les Musicals

Taith Gyngerdd Fyw 'Les Musicals' ydi'r dathliad Theatr Gerdd gorau fyw fyd bosib.

Ymunodd Jonathan Ansell (Blaenwr G4) a Jai McDowall (*Britain's Got Talent* – Enillydd) i greu cyngerdd dramatig fydd yn codi croen gŵydd arnoch. Mae'r noson egnïol o leisiol yma'n rhoi stondin i fwy fyth o ganeuon ysgubol o lwyddiannus o ddramâu cerdd mwya'r oesoedd, a dau o leisiau gyda goreuon y byd yn dod â nhw atoch.

Dewch i forio ym myd Theatr Gerdd, yn glasuron o *Les Misérables, Phantom Of The Opera, Blood Brothers, Wicked, Jesus Christ Superstar, The Greatest Showman, Miss Saigon, Chess, We Will Rock You* a llond gwlad at hynny.

£25.00 | VIP: £57.50
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

MAWRTH 8 7.30pm

Will Young

A Gwesteion Arbennig

Daw un o eiconau pop gwledydd Prydain, Will Young, yn ei ôl i Gaerdydd yn gefn i'w seithfed albwm stiwdio *Lexicon* sy'n cynnwys y sengl drawiadol *All the Songs*.

Dyma anthem dorcalonnus ond gobeithiol, dan arweiniad y piano, a'i thuedd tua'r llawr dawns ac iddi fideo hyrwyddo perffaith a gyfarwyddwyd gan y dyluniwr ffasiwn chwedlonol Rankin – *All the Songs*, y cyflwyniad perffaith i albwm ar sylfaen gorfoledd cerddoriaeth pop.

Ar ôl ennill cyfres gyntaf *Pop Idol* ITV yn 2002, bu gan Will Young yrfa anhygoel a'r uchelfannau'n cynnwys pedwar albwm Rhif Un, pedair sengl Rhif Un yng ngwledydd Prydain a dwy Wobr BRIT.

£37.50 | £45.00 | £52.00
Uchafrif tocynnau: 6
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £37.50 yr un.
Ar Werth yn Awr
Rhaid i blant dan 14 oed fod yng nghwmni oedolyn.

hynt Tudalen 40

Ar Fynd

MERCHER 9 7.30pm

Cerddorfa Ffilharmonig Mosgo

Yuri Simonov *arweinydd*
Peter Donohoe *piano*

Tchaikovsky *Marche Slave*
Rachmaninov *Concerto Piano Rhif 4*
Kachaturian *Gayaneh (pigion)*
Tchaikovsky *Swan Lake (pigion)*

Dyma gychwyn y tymor yn wefreiddiol ag angerdd Slafig ac egni penfeddwol dwy sgôr bale enwog, i ddechrau'r *Marche Slave* frwd, cathl symffonig Tchaikovsky o'r flwyddyn 1876. A phwy well na Peter Donohoe, y medalydd arian yng Nghystadleuaeth Ryngwladol Tchaikovsky Moscow 1982, i roi tân dan Bedwerydd Concerto Piano Rachmaninov, sy'n rymus ond a glywir yn anfynych, yn waith sy'n heigio gan alawon canu'r felan sy'n eli i'r galon a phencampwriaeth ddisglair? Gyda Cherddorfa Ffilharmonig Moscow, dan yr arweinydd chwedlonol Yuri Simonov, dyma gerddoriaeth Rwsia ar ei mwyaf cymhellol.

6.30pm Lefel 1 Sgwrs Am Ddim Cyn y Cyngerdd y Dr Keith Chapin.

£10.00 – £43.00
Tocyn Platinwm £51.50 (yn cynnwys sedd gyda'r gorau yn Rheng 1, gwydraid o Prosecco a rhaglen).
Codwch docynnau i 4 -13 o gyngherddau yn y Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol ac arbed hyd at 30%.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

Tudalen 3

SUL 13
Dyfodiaid carped coch 6.00pm ymlaen. Dechrau'r seremoni 7.30pm

Gwobrau Academi Brydeinig Cymru 2019

Dewch at oreuon dawn ffilm, teledu a gemau ar y carped coch ac ymuno yn y dathliadau yn Rhifyn 28 Gwobrau Academi Brydeinig Cymru.

Mae tocynnau VIP ar gael i'r cyhoedd yn ogystal ag i enwebeion, aelodau o'r diwydiant a'u gwesteion, yn cynnwys Croeso Diodydd Champagne Taittinger a Pharti Wedyn sy'n cynnwys bwyd, diodydd ac adloniant.

Pris y tocynnau: £98.00
Disgowntiau: £68.00 Aelodau VIP BAFTA. £53.00 Aelodau o Fyfyrwyr VIP BAFTA
Mae pris y tocyn yn cynnwys hefyd y parti wedyn tan ddau o'r gloch y bore.
Y tocynnau ar werth: Iau 5 Medi 2019.
Y tocynnau ar gael yn: tickets.bafta.org

MAWRTH 15 1.00pm

Llun gan Paul Marc Mitchell

Cyngerdd Awr Ginio

Nicholas McCarthy – piano

Ganed Nicholas McCarthy heb ei law dde ac nid cyn ei bedair ar ddeg oed y dechreuodd ganu'r piano. Ysbrydolodd ei raddio benawdau breision drwy'r byd yn grwn, ac yntau'r unig bianydd unllaw i raddio o'r Royal College of Music yn ei hanes can mlynedd a deg ar hugain. Mae Nicholas yn pleidio'r repertoire egnïol a dewr llaw chwith yn unig, a ddatblygodd yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae ei berfformiadau, ei recordiadau a'i waith cyfryngau yn fawr eu clod gan y beirniaid a'i oedau lawer yn cynnwys seremoni gloi'r Chwaraeon Paralympaidd yn 2012.

£6.00 ymlaen llaw
£7.00 ar y diwrnod
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler Tudalen 38). Ar Werth yn Awr

Tudalen 3 hynt Tudalen 40

MAWRTH 15 7.30pm

Taith y Byd Gŵyl Ffilmiau'r Cefnfor

Mae Taith y Byd Gŵyl Ffilmiau'r Cefnfor yn ei hôl yn hydref 2019 ac i'w chanlyn dewis newydd sbon danlli grai o ffilmiau'r cefnfor gyda'r mwyaf cyfareddol yn y byd.

Y tîm y tu ôl i Daith Prydain ac Iwerddon Gŵyl Ffilmiau Banff sy'n dod â'r daith atoch chi, yn gasgliad gofalus o ffilmiau byrion sy'n cynnwys golygfeydd gwych uwchlaw ac islaw wyneb y dŵr, yn dangos grym cyfareddol a harddwch ein cefnforoedd.

£11.00 Seddi Llinell Weld (ychydig sydd ar gael)
£14.50 Seddi Cyffredinol
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.50 yn rhatach (gweler Tudalen 38). Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

MERCHER 16 7.30pm

Kevin Bloody Wilson

Ers talwm byd, ymhell o bob man, mewn tref lofaol o'r enw Kalgoorlie yng Ngorllewin Awstralia, ganed y chwedl Kevin Bloody Wilson. Cychwynnodd y cyfan yn ddigon diniwed - rhyw frawd a chanddo ormod o amser hamdden yn newid geiriau caneuon pobol eraill, ac yn sgrifennu ambell i gân ei hun, dim ond er mwyn hwyl.

Bymtheng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, ar ôl gigiau byw rhif y gwlith a miliynau o werthiannau albymau ar hyd y ffordd, nid yn unig y mae Kevin Bloody Wilson wedi dod o hyd i'w gilfach, mae wedi cydio mewn Esky a chadair blygu a'i wneud ei hun yn braf go iawn ynddi!

£31.50
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

Ar Fynd

IAU 17 7.30pm

Sixties Gold 2019

Herman's Hermits – Pum Mlwyddiant a Hanner Cant
The Merseybeats
Marmalade
Wayne Fontana and The Mindbenders
Steve Ellis o Love Affair

Daw Sixties Gold 2019 yn ei ôl ac iddo gymanfa gryfach fyth o artistiaid a sgoriodd rhyngddyn dros hanner cant o hits ar frig siartiau gwledydd Prydain.

Dewch i ail-fyw hud y Chwe Degau yng nghwmni pump o actau siartiau mwya'r degawd.

£37.50
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

GWENER 18 7.30pm

Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd

Noson Americanaidd

Michael Bell MBE *arweinydd*

Mae'r Gerddorfa'n cychwyn ei thymor newydd â chyngerdd o gerddoriaeth wych o'r Unol Daleithiau sy'n rhoi llwyfan i'r pianydd Jeffrey Howard.

Copland *Fanfare for the Common Man*
Bernstein *Agorawd Candide*
Ives *Symffoni Rhif 2 (Première yng Nghymru)*
Gershwin *Rhapsody in Blue*
Barber *Adagio i'r Tannau*
Gershwin *Porgy and Bess: Symphonic Picture*

£8.00 – £25.00
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £8.00 yr un.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

SADWRN 19 7.45pm

Amanda Palmer

There Will Be No Intermission

Mae Amanda Palmer yn ganwr, yn gyfansoddwr caneuon, yn ddramodydd, yn bianydd, yn awdur, yn gyfarwyddwr, yn flogiwr ac yn selogyn yr iwcalili sy'n cofleidio ac ar yr un pryd yn chwalu fframweithiau traddodiadol cerddoriaeth, theatr a chelf. Daeth i'r amlwg gyntaf yn hanner *The Dresden Dolls*, y deuawd cabaret pync oedd â'i ganolfan yn Boston, a gâi glod drwy'r byd yn grwn am eu crefft caneuon ddyfeisgar a'u theatredd eang.

Bu ei gyrfa solo'r un mor feiddgar a di-ben-draw, yn cynnwys gweithiau dorrodd dir newydd megis *Theatre Is Evil* a gyllidwyd gan selogion a'i phiano solo a llyfr lluniau diweddaraf *There Will Be No Intermission*.

£26.00
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

SUL 20 3.00pm

The Best of John Williams

Pete Harrison *arweinydd*
London Concert Orchestra

O *E.T.* hyd at *Star Wars* a'r tu hwnt… does yna ddim byd yn hafal i sgorau ffilm eiconig John Williams.

E.T.
Harry Potter
Jaws
Star Wars
Superman
Hook
Jurassic Park
Schindler's List
Indiana Jones
Close Encounters

£17.00 – £49.00
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £17.00 yr un. Grwpiau o 10 neu fwy: 20% yn rhatach.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

LLUN 21 7.30pm

The Greatest Love of All

yn serennu Belinda Davids

Yn dathlu cerddoriaeth Whitney Houston gyda'r National Philharmonic Concert Orchestra

Cyngerdd byw mawr ei glod gan y beirniaid ydi The Greatest Love of All, sy'n anrhydeddu dawn, cerddoriaeth a choffa Whitney Houston. Mae'n cynnwys canu syfrdanol Belinda Davids i gyfeiliant y National Philharmonic Concert Orchestra aruthrol a dyma deyrnged gelfydd hyfryd i un o ganwyr mwya'u parch y byd.

Bydd y cynhyrchiad dwyawr yn mynd â chi ar daith gerddorol o'r galon drwy hits mwyaf Houston gan gynnwys *I Will Always Love You, I Wanna Dance With Somebody, How Will I Know, One Moment in Time, I Have Nothing, Run to You, Didn't We Almost Have It All, Greatest Love of All, I'm Every Woman, Queen of the Night* a rhagor.

£37.50 – £47.50
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 38). Grwpiau o 10-19: pob tocyn £1.00 yn rhatach. Grwpiau o 20 +: pob tocyn £2.00 yn rhatach. Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £37.50 yr un.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

Ar Fynd

MAWRTH 22 7.30pm

Rip It Up the 70s

Gan gynhyrchwyr Rip it Up the 50s a 60s dyma i chi'r degawd cerdd mwyaf erioed!!

Dewch at y pencampwr Olympaidd Louis Smith, Rachel Stevens (S Club 7), Melody Thornton (Pussycat Dolls) a Lee Ryan (Blue) i noson bondibethma. Ganed eiconau pop y 1970au: o rywle yn y gwagle glaniodd David Bowie a Marc Bolan, daeth yr Eurovision ag Abba i ni, aeth Michael Jackson Off The Wall, roedd yr Eagles yn hel eu pac o Hotel California, diffiniodd y Bee Gees Saturday Night Fever a John Lennon? – Imagined.

£25.50 | £35.00 | £38.00 £42.50
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £25.50 yr un.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

MERCHER 23 8.00pm

Van Morrison

Mae Syr Van Morrison yn un o gymeriadau go iawn byd cerdd ac yn Belfast wedi'r rhyfel y mae gwreiddiau ei dreftadaeth ddihafal ac ysbrydoledig.

Does dim golwg bod Morrison yn slofi damaid – mae'n dal i weithio ar ddeunydd newydd ac ar fentrau cyffrous i ddod.

£48.00 | £68.00 | £78.00
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £48.00 yr un.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

GWENER 25 7.30pm

Llun gan Mike Richards

Cerddorfa Symffoni a Chorws Coleg Brenhinol Cymru

And The Sun Stood Still

David Jones *arweinydd*
Yuki Minami *piano*

Sarah Jenkins *And The Sun Stood Still*
Tchaikovsky *Concerto Piano Rhif 1*
Fauré *Requiem*

Dyn tawel oedd Fauré ac mae ei Requiem, sy'n deffro'n ddi-baid yn y cof, yn ddiweddglo tangnefeddus cyngerdd cynhyrfus ei eithafion. Mae'r pianydd Yuki Minami yn codi'r to yn Concerto aruthrol o boblogaidd Tchaikovsky ac mae'r cyfansoddwr arobryn o'r Coleg, Sarah Jenkins, yn peintio tirlun gaeaf syfrdanol.

£15.00
Iau na 25: £6.00 yr un. Hawlwyr a Chyfeillion Neuadd Dewi Sant: pob tocyn £2.00 yn rhatach.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

SADWRN 26 1.00pm

SADWRN 26 7.30pm

Gweithdy Trïo'r Gamelan

Lefel 1

Caiff y teulu i gyd flas ar ein hofferynnau taro efydd hardd o Java a dysgu chwarae darn traddodiadol. Mae'r sesiynau dwyawr yn hwyl ac yn ymarferol o'r dechrau i'r diwedd, yn cynnig rhywbeth newydd pa un a ydych chi'n offerynnwr brwd ynteu heb ddim profiad cerddorol cynt.

Addas at saith oed a throsodd.

£8.50
Plant dan Under18, myfyrwyr, pobol ddi-waith, pobol anabl gofrestredig, aelodau REACT, Pobol dros eu 60: £5.00 yr un.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

Lulu

Still on Fire

Mae gan Lulu ddigon i weiddi yn ei gylch o hyd a hithau'n cychwyn ar daith enfawr eto yng ngwledydd Prydain.

Cantores, cyfansoddwr caneuon, actores, trysor cenedlaethol – i gyd yn enwau roddwyd ar Lulu. Dygnodd ati, lle gwegiodd llawer, heb flewyn ar dafod oherwydd ei dawn artist a'i phenderfyniad personol. Mae ei pherfformiadau gwefreiddiol yn sicrhau iddi selogion triw sy'n dod allan y naill flwyddyn ar ôl y llall i weld chwedl wrth ei gwaith. Sioe dan ei sang o hits ydi Still on Fire, a Lulu'n mynd â ni ar ei thaith bersonol ei hun drwy ei cherddoriaeth. A band pedwar darn yn gefn, sgrîn LED gyda munudau diffiniol teulu a gyrfa a ddetholwyd yn ofalus.

£35.00 | £40.00 | £45.00
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £35.00 yr un.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

Ar Fynd

SUL 27 3.00pm

Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru

Tomáš Hanus arweinydd
Daniel Muller-Schott soddgrwth

Smetana *Má Vlast: Vltava*
Debussy *La Mer*
Dvořák *Concerto Soddgrwth, Op 104*

Mae campwaith symffonig Debussy yn dal dawns goleuni ar ddŵr Môr Udd, a darlun Smetana o Afon Moldau yn ei famwlad Bohemia yn troelli â cherhyntau teimladau cenedlaetholgar. Mae Concerto Soddgrwth Dvořák, gyda'r goreuon a sgrifennwyd erioed, yn adleisio'n hiraethus ysbryd ei famwlad a theyrnged i'w gariad coll.

£10.00 – £43.00
Tocyn Platinwm £51.50 (yn cynnwys sedd gyda'r gorau yn Rheng 1, gwydraid o Prosecco a rhaglen).
Codwch docynnau i 4 -13 o gyngherddau yn y Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol ac arbed hyd at 30%.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

Tudalen 3

LLUN 28
canol dydd a 3.30pm

Milkshake! Live

Milkshake Monkey's Musical

Dewch i fod yn rhan o'r cynhyrchiad bondibethma yma, a chithau'n dysgu'r caneuon a'r dawnsiau gwych gyda'ch hoff ffrindiau Milkshake. Yn serennu Sam Tân, Noddy, Shimmer & Shine, Digby Draig, Wissper, Nella'r Dywysoges Ddewr a'r Floogals, ochr yn ochr â dau o Gyflwynwyr Milkshake, mae gan y sioe newydd sbon danlli grai yma ddigonedd o firi, cydadwaith â'r gynulleidfa a hen hwyl a hanner i godi pawb ar eu traed! Dyma sioe i'r teulu sy'n rhy dda i'w cholli!

Oedolion: £17.00
Plant dan 16: £15.50
Teulu o 4: £58.00
Grwpiau o 10 neu fwy: pob tocyn £1.50 yn rhatach.
Ar Werth yn Awr

HWYLIAU!

HANNER TYMOR

hynt Tudalen 40

LLUN 28 8.00pm

MAWRTH 29 & MERCHER 30 7.30pm

IAU 31
6.00pm – 7.00pm

Tŷ Cerdd @ hwyrgerdd

Siwan Rhys &
Tim Parkinson *piano*
Rhodri Davies *y delyn ac electroneg*

Cyfansoddi a byrfyfyrio arbrofol o Gymru, gyda'r newyddaf oll, sydd ar ganol y llwyfan: yn cynnwys gwaith gan Rhodri Davies, Angharad Davies, Richard Barrett a Catrin Jones.

Mae holl berfformiadau hwyrgerdd yn anffurfiol ac yn ymdrwythol, a digonedd o gyfle i sgwrsio â'r artistiaid rhwng setiau. Mae eich diod gynta'n rhan o bris y tocyn.

£10.00
yn cynnwys naill ai cwrw o'r gasgen (dim ond bar Lefel 3), gwin, diod ysgafn neu jin a thonig.
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 38). Myfyrwyr: pob tocyn £3.00 yn rhatach (heb y ddiod am ddim).

Tim Minchin

Taith Back 2019

Daw'r digrifwr, yr actor a'r cyfansoddwr arobryn yn ei ôl i'r llwyfan ar ei daith gyntaf yng ngwledydd Prydain ers 2011. Daeth clod i ran Minchin drwy'r byd yn grwn am sgrifennu cerddoriaeth a geiriau caneuon y sioe aml ei gwobr *Matilda the Musical.*

Sgrifennodd hefyd gerddoriaeth a geiriau caneuon addasiad cerddorol *Groundhog Day,* a enillodd Wobr Olivier am y Ddrama Gerdd Orau yn 2017.

£41.50
Pob tocyn wedi'i werthu – holwch ynghylch dychwelion yn y Swyddfa Docynnau .

hynt Tudalen 40

Mapiau Ffordd Cerddoriaeth Glasurol

Hanes Celf a Cherddoriaeth Ffilm

Cyflwynir gan
Jonathan James

Lefel 1

Ers oes yr arth a'r blaidd mae cerddoriaeth a drama yn ddwy gymhares berffaith. Bydd y cyflwyniad yma'n bwrw golwg ar grefft a hud eu cyfuno ar y sgrîn, o sgorau moethus oes aur Hollywood hyd at dechnegau'r oes sydd ohoni.

Addas i'r newyddian llwyr a hen lofiau o gyngherddwyr.

Am ddim ond mae gofyn tocynnau. Cadwch le drwy'r Swyddfa Docynnau

Ar Fynd

IAU 31 7.30pm

The Music of Bond

John Rigby *arweinydd*
London Concert Orchestra

Does 'Na Neb yn ei Wneud yn Well nag asiant cudd enwoca'r byd.

O *Goldfinger* i *Skyfall* a'r tu hwnt. Dewch i brofi gwefr, lladd a charu James Bond drwy'r sioe hit yma o gerddoriaeth eiconig a berfformir gan gerddorfa fyw rymus.

Goldfinger, Diamonds Are Forever, From Russia With Love, Skyfall, Live And Let Die, For Your Eyes Only, Moonraker, The Man With The Golden Gun, A View To A Kill a hylltod at hynny.

£19.50 – £42.50
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £19.50 yr un. Grwpiau o 10 neu fwy: 20% yn rhatach.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

GWENER 1
Drysau 7.00pm

Lisa Stansfield

Affection, Taith y Deng Mlwyddiant ar Hugain

Bellach, ar ben ei flwydd yn ddeg ar hugain, dathlir *Affection*, albwm lluos-blatinwm Lisa Stansfield, â thaith a wêl Lisa a'i chwip o fand yn perfformio'r hits o'r albwm a rhagor, ochr yn ochr â ffefrynnau a chlasuron o saith record solo dilynol Lisa yn cynnwys *All Around The World, What Did I Do To You, Live Together* a *This is the Right Time*.

£30.00 | £40.00
Pecyn â Seddi VIP: £81.50
Pecyn â Seddi Cwrdd a Chyfarch VIP: £121.50
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £30.00 yr un.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

SADWRN 2 7.00pm

Gŵyl Goffa Cymru

er budd Apêl Pabïau'r Lleng Brydeinig Frenhinol

Bellach ar ei bedwaredd flwyddyn ar bymtheg ar hugain, Gŵyl Goffa Cymru'r Lleng Brydeinig Frenhinol, i gefnogi'r Apêl Pabïau flynyddol, ydi cyfle'r genedl i ddod at ei gilydd i gofáu ac anrhydeddu pawb a gollodd ei einioes ar faes y gad.

Ym mis Tachwedd dowch aton ni i noson dan ei sang o gerddoriaeth a difyrrwch fydd yn canolbwyntio ar fyfyrio uwch Dydd D 75, rhyddhau s-Hertogenbosch yn ogystal â Deugeinmlwyddiant a Chant Rourke's Drift, gyda chorau'n llu, darlleniadau a Band Catrodol Y Cymry Brenhinol.

£12.00 | £17.00 | £22.00
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £12.00 yr un. Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

MAWRTH 5 1.00pm

Cyngerdd Awr Ginio

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Cyngerdd Enillydd y Wobr – Laura Deignan

Yn ddiweddar cwblhaodd Laura ei gradd Meistr mewn Perfformio Cerddorfaol yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, gyda chefnogaeth hael Help Musicians UK a Sefydliad Sain EMI. Astudiodd gyda Rob Plane a Tim Lines, a chwblhau ei gradd Baglor yno ag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf yn 2017. Enillodd Laura Wobr Ian Stoutzker y Coleg, sef gwobr y cerddor mwyaf eithriadol yn y coleg, â'i pherfformiad o Concertino Weber yn 2018 ac yn yr un flwyddyn fe'i henwyd yn enillydd Gwobr Brwynen Sengl Howarth.

£6.00 ymlaen llaw
£7.00 ar y diwrnod
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler Tudalen 38). Ar Werth yn Awr

Tudalen 3 hynt Tudalen 40

MERCHER 6 7.30pm

The Stylistics 2019

Yn syth o'r Unol Daleithiau
Noson o Hits y Naill ar ôl y Llall

Adnabyddwn y Stylistics yn y fan yn sgìl eu hits cyfarwydd lawer megis *You Make Me Feel Brand New* a enwebwyd am Grammy heb sôn am glasuron rhif y gwlith yn cynnwys *Can't Give You Anything (But My Love), Let's Put it All Together, Stop Look Listen, You are Everything, Betcha by Golly Wow, Sing Baby Sing* a llawer at hynny.

Mae'r Stylistics yn dal i fod yn benigamp, yn fendigedig o ddifyr ac yn gerddorol syfrdanol, yn cymell ar gynulleidfaoedd yr hits a'u gwnaeth yn enw ar enau pawb.

£35.45
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

IAU 7 7.30pm

Ben Elton yn Fyw

Dyma Dad Bedydd stand-up modern yn ei ôl! Mae Ben Elton ar daith unwaith eto ac i'w ganlyn sioe stand-up gwbl newydd. Mae ei sioe newydd yn addo'n deg wneud ei gorau i ganfod rhyw ben llinyn ar fyd sydd yn ôl pob golwg wedi mynd o'i gof yn lân.

Mae Ben, sy'n adnabyddus ar gorn ei olwg ddigri dat ddagrau ar fywyd modern, yn hwylio i fynd ar daith am y tro cyntaf ers pymtheng mlynedd ac meddai: 'The last time I toured I was still smarter than my phone. Things have definitely taken a funny turn'.

£32.00
Uchafrif o 4 tocyn y pryniant
Rhaid i blant dan 14 oed fod yng nghwmni oedolyn.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

Ar Fynd

GWENER 8 7.30pm

Cerddorfa Symffoni Prâg

Pietri Inkinen *arweinydd*
Ester Pavlu *mezzo soprano*

Côr Eglwys Gadeiriol Fetropolitanaidd Caerdydd

Mahler *Symffoni Rhif 3*

Mae rhai'n ystyried Trydedd Symffoni arwrol Mahler ymhlith deg symffoni fwya'r oesoedd – yn emyn arddunol i fyd natur.

£10.00 – £43.00
Tocyn Platinwm £51.50 (yn cynnwys sedd gyda'r gorau yn Rheng 1, gwydraid o Prosecco a rhaglen). Codwch docynnau i 4-13 o gyngherddau yn y Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol ac arbed hyd at 30%.

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

Tudalen 3

SADWRN 9 7.30pm

Steve Hackett

Genesis Revisited 2019

Am y tro cyntaf erioed, bydd cyn-gitarydd diatal Genesis, Steve Hackett, yn perfformio albwm arloesol Genesis *Selling England By The Pound* yn ei gyfangorff. Ym 1973 y'i rhyddhawyd, aeth yr albwm i Rif Tri yn siartiau gwledydd Prydain ac fe'i galwyd yn 'albwm diffiniol Genesis'. Mae'n cynnwys ffefrynnau mawr fel *Dancing with the Moonlit Knight, Firth of Fifth, Cinema Show* ac, wrth gwrs, *I Know What I Like (In Your Wardrobe)*. Bydd hoff draciau clasurol eraill Genesis hefyd yn amlwg eu lle yn y sioe.

Mae 2019 hefyd yn ddeugeinmlwyddiant un o albymau solo mwyaf poblogaidd Steve sef *Spectral Mornings* a bydd Steve yn dathlu'r garreg filltir yma drwy berfformio campweithiau o'r albwm. Caiff ei selogion hefyd wledd o bigion o albwm newydd Steve a ryddheir yn 2019.

£36.50 | £41.50
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £36.50 yr un.

Ar Werth yn Awr

Rhaid i blant dan 14 oed fod yng nghwmni oedolyn.

hynt Tudalen 40

SUL 10 3.00pm

Glenn Miller Orchestra

Dyma i chi big band mwyaf adnabyddus gwledydd Prydain yn eich swingio chi'n ôl mewn amser dan chwarae trefniannau Glenn Miller ei hun o ffefrynnau oedd ar frig y siartiau yn ystod y rhyfel a hits o'r pedwar degau dan gyfarwyddyd yr arweinydd band chwedlonol Ray McVay. Gyda theyrnged arbennig i bum mlwyddiant ar ddeg a thrigain Dydd D.

Strike Up The Band, Moonlight Serenade, American Patrol, Tuxedo Junction, Little Brown Jug, Pennsylvania 6-5000, The Nearness Of You, You'll Never Know, Chattanooga Choo Choo, In The Mood, The Dambusters March.

Gyda'r gwesteion arbennig **The Polka Dot Dolls** yn perfformio teyrnged i The Andrews Sisters: *Don't Fence Me In, Bei Mir Bist Du Schoen, Begin The Beguine* a'r canwyr gwadd **Mark Porter** a **Catherine Sykes**.

Bydd y gerddorfa'n perfformio ail hanner y cyngerdd yn lifrai Ail Ryfel Byd Llu Awyr byddin yr Unol Daleithiau.

£24.50 | £28.50 | £32.50
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £24.50 yr un. Grwpiau o 10 neu fwy: 20% yn rhatach.

hynt Tudalen 40

LLUN 11 7.30pm

Celtic Woman

Ancient Land

Yn ensemble recordio dawnus ac yn gymanfa berfformio gyda goreuon y byd, mae'r rhyfeddod rhyngwladol lluos-blatinwm ym myd cerdd, Celtic Woman, yn dathlu cyfoeth o dreftadaeth gerddorol a diwylliannol lwerddon, ar yr un pryd â pharhau ei etifeddiaeth hynod sef cyflwyno rhai o gantorion a cherddorion mwyaf dawnus lwerddon i lwyfannau'r byd.

Mae Celtic Woman yn act fyw ar ei phen ei hun, yn cyfuno doniau cerddorol gyda goreuon y genedl â chynhyrchu llwyfan aruthrol i gyflwyno profiad byw sy'n ysbrydoli'n ddihafal.

£37.50 | £41.00
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £37.50 yr un.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

Ar Fynd

MAWRTH 12 1.00pm

Cyngerdd Awr Ginio

Lansio Gŵyl Bro Morgannwg

Huw Watkins *piano* | David Adams *ffidil/fiola*
Matthew Hunt *clarinét*

Astudiodd Huw Watkins, Cymro o'i enedigaeth, y piano gyda Peter Lawson a chyfansoddi gyda Robin Holloway, Alexander Goehr a Julian Anderson. Mae'n un o gyfansoddwyr blaenllaw Prydain ac mae galw mawr amdano gyda cherddorfeydd ac mewn gwyliau.

Mae David Adams, gynt yn Flaenwr Cerddorfa Ulster, bellach yn Flaenwr Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru, yr un mor gartrefol ar y ffidil ag ydi ar y fiola.

Mae Matthew Hunt yn un o ganwyr clarinét blaenllaw Prydain, yn gerddor tra arbennig sy'n adnabyddus am naws leisiol ei ganu. Mae'n dal swydd clarinetydd solo gyda Deutsche Kammerphilharmonie Bremen. Ymhlith y darnau yn y rhaglen heddiw mae gweithiau gan Huw Watkins, Michael Zev Gordon a John Luther Adams.

£6.00 ymlaen llaw | £7.00 ar y diwrnod
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler Tudalen 38). Ar Werth yn Awr
Sgwrs Cyn y Cyngerdd gan John Metcalf – ganol dydd, Ystafell Llanelwy.
Mynediad Am Ddim i gyngherddwyr.

1-2 blas ar gerddoriaeth

hynt Tudalen 40

Tudalen 3

MAWRTH 12 7.30pm

Taith Podlediad Beicio Prydain

Dyma'r Podlediad Beicio yn ei ôl yng nghwmni Richard Moore, Lionel Birnie a chydweithwyr eraill a gwesteion ac i'w canlyn rhagor o'u dadansoddi, eu croniclo a'u craffter beicio arobryn. Gewch chi wybod sut beth ydi bywyd go iawn yn y peloton beicio proffesiynol ac i'r dynion a'r merched sy'n sôn am y maes y naill wythnos ar ôl y llall, drwy'r byd yn grwn ac ar draws y teithiau mawr ill tair. Bydd y daith hefyd yn nodi lansio cylchgrawn y flwyddyn feicio, *The Cycling Podcast 2019*.

£18.00
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £3.00 yn rhatach (gweler Tudalen 38).
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

MERCHER 13 Drysau 7.00pm

Squeeze

The Difford and Tilbrook Songbook 2019

A'r Gwesteion Arbennig Heaven 17

Mae Squeeze wedi cyhoeddi eu taith newydd sbon danlli grai, a wêl y chwedlau o Dde Llundain yn chwarae eu rhestr hits helaeth yn ogystal ag ambell i berl prin, llai adnabyddus o'u hen gatalog a'u gyrfaoedd solo.

Ers rhyddhau eu record gyntaf ym 1978, *Take Me I'm Yours* – a hyrddiodd Squeeze i reng flaen sîn gerdd gwledydd Prydain – mae Difford a Tilbrook yn fawr eu clod, yn ddeuawd cyfansoddi caneuon a gymharwyd â Lennon a McCartney. Dilynodd hits megis *Cool For Cats, Up The Junction, Goodbye Girl, Pulling Mussels From The Shell, Tempted*, a llond gwlad at hynny ac enillodd Squeeze eu plwy nid yn unig yn ôl-nodyn wrth fynd heibio yn hanes y Don Newydd, ond yn rhan bwysig a hanfodol o gerddoriaeth Brydeinig i'r carn.

£38.50 | £52.00
VIP gyda Chwrdd a Chyfarch: £127.50
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £38.50 yr un.

hynt Tudalen 40

IAU 14 7.30pm

Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC

Gweilch a Gwewyr Calon

Joseph Swensen *arweinydd*
Yevgeny Sudbin *piano*

Grieg *Peer Gynt, Cyfres Rhif 1 Op 46*
Grieg *Concerto Piano*
Tchaikovsky *Symffoni Rhif 6*

Dyma ddwyster Tchaikovsky ac yn ei gydbwyso Grieg ar ei fwyaf hwyliog. Paru perffaith. Ar y naill llaw cawn symffoni derfynol drallodus Tchaikovsky ac yn wrthwyneb llwyr cerddoriaeth Grieg sy'n hwb i'r galon, yn anturiaethau'r gwalch Peer Gynt a chanu a dawnsio gwerin bachog ei concerto piano.

£15.00 – £43.00
Gostyngiadau ar gael.
Ar Werth yn Awr

BBC Orchestra in Residence Y Gerddorfa Breswyl

Ar Fynd

GWENER 15
8.00pm

Russell Kane

The Fast and the Furious

Mae yn ei ôl. Ac ynddo fwy o ynni na ffatri Duracell, bydd peiriant chwerthin RS Turbo Russell yn gyrru drwy gariad, teulu a bywyd – yn profi unwaith eto fod y chwim a'r chwilfrydig yn ein mysg yn gweld mwy o bethau ac yn peri gwneud mwy o bethau.

Mae'r digrifwr, y cyflwynydd, yr actor, yr awdur a'r sgrifennwr sgriptiau mawr ei wobr Russell Kane yn fwyaf adnabyddus ar gorn *Stupid Man, Smart Phone* BBC Tri ac yn llywydd tair cyfres o *Live At The Electric* BBC Tri.

£22.50
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

SADWRN 16 7.30pm

Marillion

gyda'u Ffrindiau o'r Gerddorfa – yn Fyw yn 2019

+ Harry Pane

Mae Marillion yn ei chychwyn hi ar daith unwaith eto yn 2019 gyda chymanfa hwy o gerddorion. Bydd y sioe'n cynnwys y Pedwarawd Tannau In Praise of Folly a Sam Morris ar y corn Ffrengig ac Emma Halnan ar y ffliwt, mewn rhai eitemau. Bydd Marillion yn chwarae caneuon sy'n ymestyn dros eu gyrfa bedwar albwm ar ddeg gyda Steve Hogarth, a 2019 yn dathlu deng mlynedd ar hugain ers iddo ymuno â'r band.

£39.50 | £44.50
Uchafrif o 4 tocyn yr un/y pryniant
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £39.50 yr un. Ar Werth yn Awr
Rhaid i blant dan 14 oed fod yng nghwmni oedolyn.
Cofiwch mai cyngerdd sefyll ydi hwn yn rhannol a bydd gan y rheini sydd ar eu heistedd yn Rhes F gyngherddwyr ar eu traed o'u blaenau.

MAWRTH 19 1.00pm

Cyngerdd Awr Ginio

Dale Storr – piano

Chwedl cylchgrawn *Jazz Journal*: "piano man's piano man…", bellach daeth taith gerddorol Dale Storr â chydnabyddiaeth i'w ran yn un o bennaf bianyddion gwledydd Prydain ar ddull New Orleans. Cyrhaeddodd rowndiau terfynol Gwobrau Canu'r Felan Prydain saith mlynedd yn olynol a hefyd ennill gwobr perfformiad cerddorol gorau 2015 yng Ngŵyl Ymylon Buxton.

Gewch chi reid colli cylla teimladol, yn gerddoriaeth a hanesion canwyr piano mawr New Orleans.

£6.00 ymlaen llaw
£7.00 ar y diwrnod
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler Tudalen 38). Ar Werth yn Awr

1-2 blas ar gerddoriaeth hynt

Tudalen 40

Tudalen 3

MAWRTH 19 8.00pm

Gwrando'r Gwreiddiau

Jackie Oates

Mae enw Jackie yn gyfystyr ag adfywio canu gwerin Lloegr. Mae'n ganwr ac yn ffidler sy'n cyfareddu cynulleidfaoedd â chydbwysedd cain traddodiad ac ail-fathu. Bu ei llais persain a'i harddull ffidil ddychmygus o wylofus yn gyfrwng ennill iddi sawl Gwobr Canu Gwerin gan y BBC yn ystod gyrfa ddeng mlynedd a gychwynnodd pan oedd yn aelod o Unthanks ar eu dechrau ac a aeth rhagddi â chwe albwm solo mawr eu clod.

£13.00 ymlaen llaw
£14.00 ar y diwrnod
Iau na 16: £5.00 yr un. Aelodau REACT: £10 yr un. Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler Tudalen 38).

Roots Unearthed

hynt Tudalen 40

L3

Tudalen 3

MERCHER 20 7.30pm

Freya Ridings

Freya Ridings ydi'r seren newydd sy'n si sicr ar enau pawb o Taylor Swift hyd at Florence Welch a Richard Quinn. Daeth yn stori lwyddiant syfrdanol 2018 yn sgìl ei hit *Lost Without* You oedd yn dro ar fyd iddi ac a werthodd blatinwm. Cân unwaith mewn oes oedd hon a roes Freya yn yr amlwg yn y fan, a aeth i'r Deg Uchaf saith gwaith yn ystod cyfnod chwe mis yn y Deugain Uchaf 40 ac sydd bellach yn agos i ddau gan miliwn o lifoedd.

Lost Without You enillodd i Freya ei phlwy'n seren dydd a ddaw, ond cryfder ei sioeau byw a enillodd iddi'n gyntaf garfan selogion ar dafod leferydd – fel y'u gwelwyd yn ei recordiadau byw cynnar *Live At Omeara* a *Live At St. Pancras Old Church*. Ar bob taith gwelwyd Freya yn codi i chwarae oedfannau mwy, yn fwyaf diweddar sioe yn Llundain a werthodd bob tocyn yn The Roundhouse.

'The new Adele… Freya Ridings is the voice of 2019'
The Times

£21.00 | £25.00
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £21.00 yr un.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

Ar Fynd

GWENER 22 7.30pm

Emeli Sandé

Daw'r canwr a'r cyfansoddwr caneuon arobryn, lluosblatinwm Emeli Sandé MBE i'r Neuadd, yn dilyn rhyddhau ei thrydydd albwm *Real Life* y bu mawr edrych ymlaen ato.

Ac iddi er ei chlod gwylio ei fideo 340 miliwn o weithiau, gwerthu 19 miliwn o senglau yn cynnwys tair sengl rhif un yng ngwledydd Prydain a dros chwe miliwn o albymau, bu Emeli Sandé yn geffyl blaen yn y diwydiant cerdd a chipiodd galon y genedl. Ei halbwm début *Our Version of Events*, a ryddhawyd yn 2012, oedd yr albwm werthodd orau'r flwyddyn honno ac ail orau yn 2013. Torrodd yr albwm hefyd record y siartiau am y nifer fwyaf o wythnosau'r naill ar ôl y llall yn y Deg Uchaf, gyda thorri'r record ddaliai'r Beatles gynt ers hanner can mlynedd. Enillodd Emeli anrhydeddau lawer gan gynnwys pedair Gwobr Brit (Dewis y Beirniaid, yr Albwm Gorau a'r Solo Benywaidd ddwywaith, yn fwyaf diweddar yn 2017 am ei hail albwm, *Long Live the Angels*) ac yn 2018 dyfarnwyd iddi MBE am wasanaethau i Gerddoriaeth.

£38.00 | £50.50 | £68.00
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £38.00 yr un.
Ar Werth yn Awr
Rhaid i blant dan 14 oed fod yng nghwmni oedolyn.

hynt Tudalen 40

SADWRN 23 7.30pm

Jonathan Pie:
The Fake News Tour

A bwrw mai newydd da ydi dim newydd, siawns nad newydd ffug ydi newydd da. Dyma Jonathan Pie ar daith unwaith eto i roi pryd o dafod i'r bobol mewn grym – a'r newyddiadurwyr sydd yn ôl pob golwg yn eu galw i gyfrif.

Jonathan Pie ydi'r Gohebydd Newyddion cynddeiriog y gwelwyd ei fideos drwy'r byd yn grwn. Aeth ei ddwy daith cynt i oedfannau fel yr Hammersmith Apollo a'r London Palladium a pherfformiadau drwy hyd a lled yr Unol Daleithiau ac Awstralia.

£20.00 | £27.00
Myfyrwyr a phobol ddigyflog: pob tocyn £5 yn rhatach.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

LLUN 25 7.30pm

Love Actually

Cyngerdd Byw gyda Cherddorfa Lawn

Richard Curtis gyfarwyddodd *Love Actually* a ryddhawyd gyntaf yn y pictiwrs yn 2003, yn adrodd deg hanes ar wahân ond sydd eto'n cyd-weu – straeon caru adeg y Nadolig.

Yn y sioeau yma bydd cerddorfa fyw, lawn yn perfformio sgôr atgofus Craig Armstrong, gyda thaflunio'r ffilm ar sgrîn enfawr. Mae Armstrong ymhlith cyfansoddwyr ffilm mwyaf cydnabyddedig gwledydd Prydain a dyfarnwyd BAFTA i'w waith am ei Orchest ym maes Cerddoriaeth Ffilm.

Bellach mae'r ffilm yn draddodiad Nadolig i lawer, a chaiff cynulleidfaoedd sy'n dod i Daith Gyngerdd Fyw *Love Actually* wledd – sef ffordd ddi-ail o wylio'r ffilm sy'n codi ysbryd y gwyliau ar gynifer ers un mlynedd ar bymtheng.

£42.00 | £52.00 | £67.50
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £42.00 yr un.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

MAWRTH 26 1.00pm

Cyngerdd Awr Ginio

Côr Eglwys Gadeiriol Fetropolitanaidd Caerdydd

Aelodau o'r Gerddorfa Gyngerdd o Goleg Sant Ioan Dan gyfarwyddyd Jeffrey Howard

Côr yr Eglwys Gadeiriol sy'n cychwyn tymor y Nadolig i ni â detholiad hyfryd o garolau traddodiadol a cherddoriaeth i'r Nadolig, gydag aelodau o'r Gerddorfa Gyngerdd o Goleg Sant Ioan.

Da o beth ydi codi tocynnau'n fuan.

£6.00 ymlaen llaw
£7.00 ar y diwrnod
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler Tudalen 38).
Ar Werth yn Awr

1-2 blas ar gerddoriaeth hynt Tudalen 40

Tocyn Tudalen 3

Ar Fynd

MAWRTH 26 7.30pm

John Robins:
Hot Shame

Yr Enillydd Perrier, y Troellwr Digidol, Vibe-Magnet, yn bloeddio i bydew. Dewch at John Robins i'w sioe stand-up newydd yn dilyn The Darkness Of Robins fawr ei chlod gan y beirniaid, a werthodd yn sgubol. Yn ogystal â chael clod ar hyd ac ar led am ei sioe radio gydag Elis James, cafodd John Robins y gair o fod yn stand-up sy'n cael hyd i ddoniolwch ar ein munudau mwyaf llwm. Gewch chi ddisgwyl cywilydd sy'n dinoethi'r enaid, sy'n hunanarcholli, sy'n chwilboeth!

Enillydd Gwobr Gomedi Caeredin 2017 fel y'i gwelwyd ar *Live At The Apollo*. Yn gefn iddo daw ei ffrind y digrifwr 'The Lovely' Robin Allender.

£20.00
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

MERCHER 27 7.30pm

Philharmonia Orchestra

Vladimir Ashkenazy *arweinydd*
Sayaka Shoji *ffidil*

Brahms *Concerto Ffidil*
Sibelius *Symffoni Rhif 2*

Ers tro byd mae Concerto Ffidil Brahms yn un o hoelion wyth y repertoire, yn foddfa o heulwen yr Alpau. Y ffidler o Japan Sayaka Shoji ydi enillydd ieuaf erioed Cystadleuaeth Paganini, mae'n ddehonglwr adnabyddus Sibelius, yn tebol ddigon i lywio drwy gopaon y concerto ac egni ffrwydrol y symffoni.

£10.00 – £43.00
Tocyn Platinwm £51.50 (yn cynnwys sedd gyda'r gorau yn Rheng 1, gwydraid o Prosecco a rhaglen).
Codwch docynnau i 4 -13 o gyngherddau yn y Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol ac arbed hyd at 30%.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

Tudalen 3

IAU 28 & GWENER 29 8.00pm

SADWRN 30 7.30pm

Romesh Raganathan

The Cynic's Mixtape

Mae Romesh yn ei ôl ac i'w ganlyn sioe newydd sbon danlli grai, ei sioe fwyaf ciaidd o onest hyd yma. Yn syth ar ôl *Misadventures of Romesh Ranganathan, A League Of Their Own* a J*udge Romesh*, mae'n rhoi byd adloniant o'r neilltu i draddodi detholiad gofalus o'r holl bethau sy'n dân ar ei groen ers y daith ddiweddaraf, yn cynnwys pam mae ceisio achub yr amgylchedd yn sgiâm, pam nad oes yr un ohonom yn wirioneddol rydd a'i amheuon fod ei wraig yn defnyddio anoddefiad glwten i osgoi cyd-gysgu ag ef.

£25.00
Pob tocyn wedi'i werthu

Canllaw i Rieni: 14+ (Mwy na thebyg bydd rhegi a chynnwys i oedolion).

hynt Tudalen 40

Adam Ant

Friend or Foe – Taith yng ngwledydd Prydain

Yn dilyn taith drwy'r byd i oedfannau dan eu sang drwy hyd a lled y Deyrnas Unedig, yr Unol Daleithiau, Canada, Awstralia a Seland Newydd, dyma Adam Ant yn cadarnhau ei Daith *Friend or Foe* yng ngwledydd Prydain yn 2019. Bydd Adam Ant yn chwarae ei albwm carreg filltir *Friend or Foe* ar ei hyd yn ogystal â senglau fu ar frig y siartiau a ffefrynnau personol.

Yr albwm oedd y cyntaf i Adam ei ryddhau'n artist solo ac roedd arno dair sengl hit. Cyrhaeddodd yr hit ysgubol *Goody Two Shoes* Rif Un yng ngwledydd Prydain, roedd hefyd yn Rhif Un yn Awstralia ac yn Rhif 6 yn siart Billboard yr Unol Daleithiau. Roedd *Friend or Fo*e, y sengl, yn hit arall yn y deg uchaf yng ngwledydd Prydain a *Desperate But Not Serious* oedd trydydd hit ysgubol yr albwm ym Mhrydain.

£37.50 | £41.00
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 40

Maes o Law

RHAGFYR 2019		
Sul 1	3.00pm	**Now! That's What I Call the 80s***
Mawrth 3	7.30pm	**Manchester Camarata & Craig Ogden***
Iau 5	7.30pm	**The Bootleg Beatles mewn Cyngerdd***
Gwener 6	1.00pm	**Cyngerdd Awr Ginio** Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Pres y Nadolig*
Llun 9	7.30pm	**Only Men Aloud***
Sul 15	3.00pm	**The Sixteen***
Llun 16	Drysau 7.00pm	**The Overtones***
Mawrth 17	Drysau 7.00pm	**Björn Again***
Iau 19 – Gwener 20	Amryw Oriau	**Bale Gwladol Rwsiaidd Siberia** Coppélia*
Sadwrn 21 – Mawrth 24	Amryw Oriau	**Bale Gwladol Rwsiaidd Siberia** The Nutcracker*
Gwener 27 – Mawrth 31	Amryw Oriau	**Bale Gwladol Rwsiaidd Siberia** Swan Lake*

IONAWR 2020		
Llun 13	8.00pm	**Rush & Hartson*** Chwedlau Pêl-droed Cymru'n Sgwrsio
Sul 19	4.00pm	**Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC/ Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru*** Budd-gyngerdd Beethoven 1808
Sadwrn 25	7.30pm	**David Baddiel*** Trolls Not The Dolls
Sul 26	3.00pm	**Anton & Erin*** Dance Those Magical Moments
Mawrth 28	7.30pm	**Martyn Joseph***
Iau 30	7.30pm	**Cerddorfa Siambr yr Undeb Ewropeaidd***
Gwener 31	7.30pm	**Michael® Starring Ben***

CHWEFROR 2020		
Mawrth 4	11.00am	**Cerddorfantur!***
Llun 10	7.30pm	**Grease Mewn Cyngerdd*** Y Ffilm gyda Cherddorfa Fyw
Iau 13	7.30pm	**Cerddorfa Symffoni Gwlad yr Iâ ***
Sadwrn 22	7.30pm	**Queen Symphonic*** A Rock & Orchestra Experience
Gwener 28	Drysau 7.00pm	**Lighthouse Family***

* Ar Werth yn Awr

MAWRTH 2020

Iau 5	7.30pm	**Ben Fogle*** – Tales from the Wilderness
Gwener 6	7.30pm	**Armonico Consort***
Sadwrn 7	7.30pm	**Paul Carrack*** Taith 2020
Llun 9	7.30pm	**Dick & Angel*** Dare to Do It!
Mawrth 10	7.30pm	**Susan Boyle*** – The Ten Tour
Mercher 11	7.30pm	**Milton Jones yn Milton: Impossible ***
Gwener 13	7.30pm	**Royal Philharmonic Orchestra***
Sadwrn 21	8.00pm	**Ed Byrne***
Llun 23	8.00pm	**The Boys Are Back!***
Mawrth 24	7.30pm	**Jamie Cullum*** Taller 2020
Iau 26	7.30pm	**The Bowie Collective*** A Journey Into The Mind of The Rock 'n' Roll Alien

* Ar Werth yn Awr

Maes o Law

EBRILL 2020			
Mercher 1		7.30pm	**Puccini – Madama Butterfly***
Gwener 3		7.30pm	**Philharmonia Orchestra***
Mercher 8		7.30pm	**The Sensational 60s Experience***
Sadwrn 11	Drysau	7.00pm	**Gatecrasher Classical, Caerdydd** *
Mercher 22		7.30pm	**Queen Machine Symphonic*** Yn rhoi llwyfan i Kerry Ellis
Sul 26		3.00pm	**Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru***
Llun 27		8.00pm	**Ross Noble***
MAI 2020			
Llun 18		7.30pm	**Aurora Orchestra***
MEHEFIN 2020			
Llun 1 – Mercher 3		7.30pm	**Riverdance*** Sioe Newydd y Chwarter Canmlwyddiant
Sadwrn 6		7.30pm	**Royal Liverpool Philharmonia Orchestra***
GORFFENNAF 2020			
Gwener 10		8.00pm	**Côr a Cherddorfa'r Tabernacl*** (gwahoddiad yn unig)
HYDREF 2020			
Sadwrn 3		8.00pm	**Jimmy Carr***

* Ar Werth yn Awr

Raymond Gubbay presents/yn cyflwyno

Magical ballets with stunning scenery brought to life by digital magic
Bales hudol ac iddynt olygfedd trawiadol a adfywir trwy hud digidol

Coppelia
The Nutcracker
Swan Lake



Performed by
The Russian State Ballet of Siberia
Perfformir gan
Fale Gwladol Rwsiaidd Siberia

Accompanied by The Orchestra of the Russian State Ballet
I gyfeiliant Cerddorfa Bale Gwladol Rwsia

19 – 31 DECEMBER/RHAGFYR

GOK WAN
MIKE DOYLE CERI DUPREE
CINDERELLA
THE FAIRY GODMOTHER OF ALL PANTOMIMES
PHIL BUTLER
7 DEC 2019 - 12 JAN 2020
7 RHAG 2019 - 12 ION 2020
newtheatrecardiff.co.uk
029 2087 8889
NEW THEATRE

2020
UK TOUR
Sadwrn 25 Ionawr 7.30pm
DAVID
BADDIEL
Trolls Not The Dolls
£29.50

Gwener 31 Ionawr 7.30pm
MICHAEL®
STARRING BEN
The Magic of
Michael Jackson
£26.00 – £30.00

Iau 3 Mawrth 7.30pm
BEN
FOGLE
Tales from the Wilderness
£29.50

St David's Hall
Neuadd Dewi Sant

029 2087 8444
www.stdavidshallcardiff.co.uk

CARDIFF
CAERDYDD

Supported by
The National Lottery
through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cadwch Mewn Cysylltiad ac Mewn Cywair – Dewch yn Gyfeillion Pennaf!

Gewch chi fod yn un o'r cyntaf i wybod be sydd ar fynd, cael y llyfryn yn boeth o'r wasg a chael blaenoriaeth yn codi tocynnau, a gostyngiadau'r Cyfeillion am ddim ond £18 y flwyddyn.

Llenwch y ffurflen gais a dechrau mwynhau manteision bod yn un o'n Cyfeillion!benefits of being a Friend of ours!

FFURFLEN GAIS CYFEILLION NEUADD DEWI SANT

Enw:

Cyfeiriad:

Cod Post:

Teleffon (yn ystod y dydd):

Teleffon (gyda'r nos):

Cofiwch roi cyfeiriad e-bost i ni fel y gallwn roi gwybod i chi'n syth pan fydd sioeau newydd ar werth rhwng llyfrynnau.

Ebost:

Taliad (ticiwch fel y bo'n briodol

Rydw i'n amgáu siec/archeb bost yn daladwy i: CYNGOR CAERDYDD am £18 am flwyddyn gyntaf fy aelodaeth o'r Cyfeillion

A wnewch chi godi £18 ar fy Mastercard ☐ Visa ☐

Switch ☐ Delta ☐

Cod Sicrwydd ☐☐☐

(y tri rhif olaf ar gefn eich cerdyn)

Rhif y Cerdyn:

☐☐☐☐ ☐☐☐☐ ☐☐☐☐ ☐☐☐☐

Dyddiad Cychwyn:

Dyddiad Terfyn:

Rhif cyhoeddi (Switch yn unig)

Llofnod Deiliad y Cerdyn

Gwybodaeth am godi tocynnau

Swyddfa Docynnau: 029 2087 8444
Codi tocynnau ar lein – www.stdavidshallcardiff.co.uk
Gweinyddiaeth: 029 2087 8500

Bellach gallwch ddewis eich sedd eich hun pan fyddwch yn codi tocynnau ar lein.

I rai digwyddiadau, am fod cynifer o gwsmeriaid yn y Swyddfa Docynnau, efallai y bydd gofyn i ni atal gwerthiannau digwyddiadau diweddarach hanner awr cyn dechrau perfformiad.

Mae codi tocynnau yn hawdd
Mae'r Swyddfa Docynnau ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn o hanner awr wedi naw tan hanner awr ar ôl dechrau'r perfformiad (neu bump o'r gloch pan does dim perfformiad) a dyddiau Sul a Gwyliau Banc awr cyn y perfformiad i bobl sy'n dod yn bersonol yn unig.

Teleffon ar 029 2087 8444. Talwch yn y fan â chardiau debyd neu gredyd (efallai y bydd ffi am bob tocyn i rai sioeau). Rydym yn derbyn cardiau Mastercard, Visa a Delta. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn cardiau Solo nac Electron. Cofiwch gasglu tocynnau wedi eu talu ymlaen llaw hanner awr cyn cychwyn y perfformiad.

Mae'r llinellau teleffon yn cau hanner awr cyn amser cau'r Swyddfa Docynnau.

POST sgrifennwch atom ni yn Neuadd Dewi Sant, Yr Aes, Caerdydd, CF10 1AH gyda manylion llawn eich gofynion gan gynnwys eich dewis fan eistedd ac unrhyw ddisgowntiau sy'n berthnasol. Cynhwyswch eich enw, eich cyfeiriad, eich cod post a rhif teleffon yn ystod y dydd ac amgáu siec yn daladwy i Gyngor Caerdydd neu fanylion eich cerdyn (gan gynnwys y dyddiad terfyn a rhif dosbarthu Switch), ac amlen â chyfeiriad a stamp ar gyfer anfon eich tocynnau. Mae yna dâl o £1.00 am anfon tocynnau drwy'r post.

Yn Wyrdd Amdani – Ymunwch â'n rhestr e-bost a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am sioeau a chynigion yn syth i'ch blwch derbyn. Ymgofrestrwch yn www.stdavidshallcardiff.co.uk

Amddiffyn Data
Pan fyddwch chi'n codi tocynnau i Neuadd Dewi Sant cadwir eich gwybodaeth bersonol ar system gyfrifiadurol y Swyddfa Docynnau. Drwy godi tocynnau rydych chi'n caniatáu cadw'ch gwybodaeth bersonol yn unol â'r Deddfau Amddiffyn Data. Gofynnir i chi a geir defnyddio'r wybodaeth yma:

- i roi gwybod i chi am ddigwyddiadau neu ddatblygiadau i ddod yn New Theatre neu Neuadd Dewi Sant;
- i'w rhoi i gyrff eraill yn y celfyddydau yn ne Cymru – a allai gynnwys Theatr Sherman, Canolfan Mileniwm Cymru, CBCDC, National Theatre Wales, Canolfan Celfyddydau Chapter, Opera Cenedlaethol Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Sinfonia Cymru a Ballet Cymru – at ddiben tebyg;
- i'w rthoi i gyrff heb fod yn y celfyddydau, wedi'u dethol yn ofalus, at ddiben rhagor o wybodaeth a allai fod o ddiddordeb i chi.

Gofynnir i chi ddweud pa ddewisiadau sy'n dderbyniol gennych. Bydd hyn yn rhoi lle i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'ch dymuniadau.

Gellir rhannu gwybodaeth codi tocynnau cwsmeriaid (ac eithrio manylion cardiau credyd) ag asiantaethau allanol at ddiben dadansoddi. Bydd Neuadd Dewi Sant yn gwneud popeth rhesymol i sicrhau diogelwch data oddi mewn i'r broses yma.

Mae prosesau Neuadd Dewi Sant yn cydymffurfio â Deddf Amddiffyn Data 1998.

Rheolir, cynhyrchir a gweithir ein gwefannau a'n Hysbysebion Swyddogol gan Neuadd Dewi Sant o'n swyddfeydd yn y Deyrnas Unedig. Nid yw Neuadd Dewi Sant yn dweud ar gyfrif yn y byd fod y deunydd a'r wybodaeth ar ein gwefan neu y gellir eu cyrchu drwyddi nac yn addas nac ar gael i'w defnyddio mewn Gwledydd eraill y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Tocynnau Mantais Safonol
Mae'r tocynnau mantais sy'n dilyn yn berthnasol i sioeau sy'n dangos gostyngiadau yn y panel prisiau:
Cyfeillion Neuadd Dewi Sant, Plant dan 16, Myfyrwyr, *Pobl dros eu 60, Pobl anabl (ynghyd ag un cydymaith), Hawlwyr, Dalwyr cardiau MAX ac Aelodau Corfforaethol. Dim ond un disgownt y ceir ei ddefnyddio ar bob tocyn ac mae gofyn prawf o safle. Cofiwch ddweud pa ddisgownt rydych yn ei hawlio pan fyddwch chi'n codi tocyn.

* Efallai na fydd y disgownt yma'n berthnasol i rai perfformiadau.

Caiff defnyddwyr cadeiriau olwyn (ynghyd ag un cydymaith) brynu seddi'r stalau am bris y tocyn rhataf i sioeau sy'n dangos y gostyngiad yma. Does dim dal y bydd llefydd cadeiriau olwyn ar gael a dylid eu cadw drwy'r Swyddfa Docynnau, nid ar lein, er mwyn ymorol am anghenion penodol cwsmeriaid.

Tocynnau Myfyrwyr
Mae tocynnau £5.00 hefyd ar gael i gyngherddau yng Nghyfres Cyngherddau Rhyngwladol Neuadd Dewi Sant hyd at hanner awr wedi chwech ar ddiwrnod y perfformiad.

Rhaid casglu tocynnau ac fe'u rhoddir pan ddangosir cerdyn adnabod myfyriwr dilys.

Grwpiau
Rydym yn croesawu partïon o unrhyw faint ac yn cynnig disgowntiau dethol i grwpiau o ddeg neu fwy. Rhowch ganiad i'r Llinell Boeth Grwpiau unswydd ar 029 2087 8443

Tocynnau Teulu
Mae Tocynnau Teulu ar gael i rai digwyddiadau lle dangosir hynny. Mae hyn yn berthnasol i Deulu o bedwar sy'n cynnwys uchafrif o ddau oedolyn a dau o blant dan 16.

Plant
Mae gostyngiadau a phrisiau arbennig yn berthnasol i lawer o ddigwyddiadau. Am resymau lechyd a Diogelwch, bydd gofyn tocyn ar bob plentyn oed cerdded.

Cyfeillion Neuadd Dewi Sant
Gewch chi ostyngiadau dethol, copi o'r llyfryn gyda llythyr newyddion bob yn ddeufis a blaenoriaeth yn codi tocynnau i'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau am ddim ond £18 y flwyddyn. Rhowch ganiad i'r Swyddfa Docynnau ar

029 2087 8444 i gael rhagor o fanylion.

Ad-Daliadau a Chyfnewidiadau
Mae Neuadd Dewi Sant yn rhoi mawr werth ar ymroddiad ei chwsmeriaid yn codi tocynnau'n fuan ac mae'n cydnabod bod pethau annisgwyl weithiau'n nadu i bobl ddod.

Gellir cyfnewid tocynnau i unrhyw ddigwyddiad am yr un pris neu'n uwch (o dalu'r gwahaniaeth). Nid yw'r dewis cyfnewid ar gael i gyngherddau sydd wedi gwerthu pob tocyn. Os bydd y digwyddiad yn rhan o dymor penodol (ee Proms, Bale etc), cynigir tocynnau i'w cyfnewid yn rhan o'r un tymor. Rhaid i docynnau ddod i law yn y Swyddfa Docynnau dim diweddarach na phedwar awr a deugain cyn y perfformiad gwreiddiol. Mae tâl o £2.00 am y gwasanaeth yma. (Gwaetha'r modd, ni ellir na chyfnewid nac ailwerthu yn Neuadd Dewi Sant docynnau a godwyd drwy Ganolfan Gofal Cwsmeriaid y BBC.)

Fel arall derbynnir tocynnau i'w hailwerthu ar yr amod mai tocynnau Neuadd Dewi Sant a werthir yn gyntaf ac nad oes modd sicrhau ailwerthu. Ni allwn ailwerthu tocynnau oni bai bod y tocynnau gwreiddiol yn cael eu dychwelyd i'r Swyddfa Docynnau. Cedwir 20% gwerth unrhyw ailwerthu.

Ar wahân i'r ddau wasanaeth yma neu ganslo perfformiad, nid ad-dalir arian unwaith y bydd tocynnau wedi'u codi.

Os canslir perfformiad rhaid dychwelyd tocynnau i'r man prynu (e.e. Os codwyd nhw drwy un o'n hasiantaethau tocynnau cydnabyddedig, dylid eu dychwelyd yn uniongyrchol atyn nhw).

Hwyrddyfodiaid
I osgoi amharu, dim ond pan fydd saib addas yn y perfformiad y gellir gadael i hwyrddyfodiaid ddod i mewn i'r awditoriwm. Gellir gwylio'r cyngerdd drwy deledu cylch cyfyng yn Lolfa L3.

Amodau gwerthu
Cadwn yr hawl i wneud newidiadau yn y cast neu'r rhaglen os oes gofyn.

Gellir gwrthod mynediad dan rhai amgylchiadau heb o anghenraid wneud ad-daliad. Cofiwch fwrw golwg ar eich tocynnau pan godwch nhw i ymorol eu bod yn gywir. Fel y gwêl yn dda Rheolwr y Swyddfa Docynnau y mae ad-daliadau.

Cofiwch ymorol bod eich ffôn symudol wedi'i ddiffodd yn ystod y perfformiad. Ni chaniateir na thynnu lluniau na recordio unrhyw berfformiad.

Tâl Gwasanaeth Tocynnau
Mae tâl Gwasanaeth Tocynnau ar rai pryniannau tocynnau, sef £3.95 y pryniant felly, i'r digwyddiadau yma, dim ond £3.95 dalwch chi, waeth faint o docynnau godwch chi ar y pryd. Mae'r Tâl Gwasanaeth Tocynnau yn ymorol am gost cynhyrchu eich tocynnau, prosesu eich archeb ac anfon eich tocynnau atoch chi. Mae'n amcan gennym roi gwasanaeth tan gamp i gwsmeriaid pa un a ydyn nhw'n ymweld â ni'n bersonol, yn galw ar y ffôn ynteu'n rhyngweithio â ni ar lein. Bydd y tâl bychan yma am bob gwerthiant yn rhoi lle i ni ddal i wneud hyn er gwaethaf galw mwyfwy ar adnoddau gwerthfawr.

*Bydd rhai digwyddiadau heb y Tâl Gwasanaeth Tocynnau – er enghraifft digwyddiadau a drefnir gan A2 Actifyddion Artistig ac unrhyw ddigwyddiad a chanddo'n bris drutaf £13.00 neu lai.

Yfed Cyfrifol
A ninnau'n oedfan adloniant trwyddedig rydym yn hybu yfed cyfrifol. Os bydd unrhyw gwsmeriaid yn dangos arwyddion o feddwdod, ymosodedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, oherwydd diod neu rywbeth arall, cânt eu hebrwng o'r adeilad ac ni chynigir dim ad-daliadau tocynnau.

Gwybodaeth am godi tocynnau

SUT I DDOD ATOM
Rydym yng nghalon Caerdydd nesaf at Ganolfan Siopa Dewi Sant ar Yr Aes.



A wnewch chi ymorol bod eich ffôn symudol wedi'i ddiffodd yn ystod y perfformiad. Ni chaniateir tynnu lluniau na recordio unrhyw berfformiad.

GWASANAETHAU I GWSMERIAID

Os oes gennych chi ofynion eistedd arbennig a wnewch chi roi gwybod i'r Swyddfa Docynnau.

Mae cyfleusterau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn cynnwys lloriau gwastad, cyfleusterau tai bach (yn y Bwyty ac ar Lefelau 2,3,4 a 5) a chownteri lefel isel yn y Swyddfa Docynnau, yr Ystafell Gotiau a Bar Lefel 3. Gall defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith godi tocynnau i seddi cefn y stalau am bris y tocyn rhataf sydd ar gael ar gyfer y perfformiad. Efallai y bydd cwsmeriaid ag anawsterau cerdded yn cael mai seddi'r stalau ydi'r mwyaf hygyrch.

Mae system is-goch ar gael yn yr awditoriwm (ac eithrio Rheng 5) a gellir ei defnyddio heb neu gyda chymorth clywed. A wnewch chi roi gwybod i staff y Swyddfa Docynnau pan fyddwch chi'n codi tocynnau a rhoddir cyfarwyddiadau defnyddio cyflawn pan gyrhaeddwch chi ar gyfer y digwyddiad.

Am wybodaeth ynghylch sut y gall cwsmeriaid â nam ar eu symudedd fynd i Neuadd Dewi Sant mewn cerbyd pan fyddan nhw'n mynd i berfformiad neu ddigwyddiadau penodol sydd heb fod yn berfformiadau, ewch i dudalennau Eich Ymweliad a Mynediad y wefan **www.stdavidshallcardiff.co.uk** neu roi caniad i'r Swyddfa Docynnau ar **029 2087 8444**. Cofiwch, er mwyn cydymffurfio â chytundeb rhwng Cyngor Caerdydd a Heddlu De Cymru, mai hyn a hyn o drwyddedau gollwng i gerbydau preifat a rannir ar gyfer pob perfformiad yn ôl y drefn y cyntaf i'r felin gaiff falu.

Mae gwybodaeth am ddigwyddiadau ar gael mewn fformatau Braille a phrint bras o'r ddesg ar lawr gwaelod y Neuadd, Llyfrgell Ganolog Caerdydd a Chymdeithas Deillion Caerdydd. I gael eich copi eich hun rhowch ganiad i'r Adran Farchnata ar 029 2087 8542.

Mae croeso i gŵn tywys.
A wnewch chi roi gwybod i'r Swyddfa Docynnau pan fyddwch chi'n codi tocynnau.

Cynllun cenedlaethol newydd ydi **Hynt** sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydau drwy hyd a lled Cymru i ymorol bod pethau'n glir ac yn gyson o ran polisi tocynnau teg a mynediad. Mae gan ddeiliaid cardiau **Hynt** hawl i docyn yn rhad ac am ddim i gynorthwywr personol neu ofalwr yn Neuadd Dewi Sant a'r holl theatrau a chanolfannau celfyddydau sy'n rhan o'r cynllun. Ewch i **www.hynt.co.uk** i gael gwybodaeth am y cynllun ac i ymuno.